# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 28 Chwefror 2024

Yn bresennol
Dr R Heath Davies (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss, Dr M Havard a'r Cynghorydd M James.

Swyddogion yn bresennol
Ceri Kwiecinski (Archwilio Mewnol), Y Prif Weithredwr, Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch, Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, Pennaeth Datgarboneiddio, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb -11.40yb; 11.50yb - 1.50yp)

**1. Materion Personol**
Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth y Cynghorydd R Owens yn ddiweddar ac at ei wasanaeth clodwiw i'r Awdurdod ac fel aelod o'r Pwyllgor hwn ers 2014. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano.

**2. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

**3. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**4. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd James, a eiliwyd gan y Cynghorydd Clements, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023.

**5. Log Gweithredu**
Nodwyd y diweddariadau oedd yn y tabl.

**6. Adroddiad cyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023**
Cyflwynodd y Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch rywfaint o wybodaeth ychwanegol i'r Aelodau ar rai o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod.

**NODWYD.**

**7. Adroddiadau Archwilio Mewnol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Ceri Kwiecinski o Astari , Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Dywedodd bod y gwaith o gyflawni Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24 yn mynd rhagddo'n dda ac nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd. Gan droi at yr Archwiliad Iechyd a Diogelwch, yr adroddwyd ar ei ganlyniadau i'r Pwyllgor y diwrnod hwnnw, nodwyd bod y maes gwaith hwn wedi cael sicrwydd rhesymol. Roedd pump argymhelliad a phedwar pwynt o arfer da wedi'u clustnodi. Fodd bynnag, dywedodd yr Archwilydd eu bod wedi ystyried y gwaith gwella oedd ar y gweill a'r gwaith oedd wedi'i gynllunio adeg yr adolygiad, i gryfhau'r fframwaith rheoli, ac nad oeddent wedi codi argymhellion ychwanegol lle ystyriwyd y byddai'r gwelliannau arfaethedig yn debygol o fynd i'r afael â'r risgiau a glustnodwyd, gyda'r cafeat bod y gwelliannau yn cael eu rhoi ar waith fel y bwriadwyd.

Eglurodd y swyddogion y byddai'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod mis Mawrth o'r Awdurdod, ac ar gyngor yr Archwilydd, y byddai'r polisi yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'w adolygu. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch safoni asesiadau risg a pha mor gyfredol ydynt, dywedodd y swyddogion bod templed newydd i asesu risg wedi'i gyflwyno ar draws yr Awdurdod a bod hyfforddiant wedi'i drefnu. Roedd gan yr Awdurdod nifer fawr o ddogfennau asesu risg ac roedd gwaith yn mynd rhagddo bellach i ddileu achosion o ddyblygu a diweddaru'r dogfennau hyn. Oherwydd maint y dasg, gofynnwyd i'r dyddiad gweithredu gael ei ddiwygio i fis Medi 2024.

Roedd y swyddogion yn derbyn yr argymhellion a chytunwyd y byddai'r argymhellion yn cael eu trosglwyddo i Log Gweithredu Archwilio. Fodd bynnag dywedwyd y byddai'r awgrymiadau yn cael blaenoriaeth is i'r argymhellion ac y byddent yn derbyn sylw pan fyddai amser yn caniatáu.

**Nodwyd.**

**8. Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol (hyd at 31 Rhagfyr 2023)**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn cais gan yr Aelodau, bod y Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu i gynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r camau gweithredu, oedd wedi'u categoreiddio â gradd Coch, Melyn, Gwyrdd, a dywedwyd bod y camau hyn bellach wedi'u hychwanegu at y system adrodd ar berfformiad, i

ategu’r gwaith o gydlynu’r gwaith monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu.

Roedd yr adroddiad yn amlygu bod nifer o gamau blaenoriaeth uchel bellach wedi'u cwblhau, yn enwedig o ran rheoli risg, parhad busnes, ac adfer ar ôl trychineb, ac y gellid symud ymlaen â chamau gweithredu cysylltiedig eraill yn awr. Holodd yr Aelodau ynghylch gweithredu’r cam 1100 y cytunwyd arno o ran yr angen am sêff fwy o faint yng Nghastell Henllys ar gyfer storio arian parod, pan oedd nifer cynyddol o drafodion yn cael eu gwneud â cherdyn. Cytunodd y swyddogion i adolygu'r cam hwn o weithredu. Hefyd mynegwyd pryder ynghylch diffyg camau ymlaen o ran diogelu. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Pwyllgor bod prosesau diogelu yn parhau i gael eu cyflawni ac y byddai'n dilyn hyn ymhellach a llunio adroddiad blynyddol fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**Nodwyd**.

9. **Adroddiad Chwarterol ar Iechyd, Diogelwch a Lles**

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch y dangosfwrdd Iechyd a Diogelwch / Adnoddau Dynol oedd yn cynnwys gwybodaeth hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023. Dywedodd bod 68 o adroddiadau am ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn oedd yn gynnydd o 10% yn y digwyddiadau a adroddwyd, ond 5% o ostyngiad mewn digwyddiadau gwirioneddol; y gobaith oedd y byddai mwy o adroddiadau am ddamweiniau fu bron â digwydd yn arwain at lai o ddigwyddiadau. Gofynnodd yr Aelodau am i'r digwyddiadau fu bron â digwydd gael eu hadrodd ar wahân yn y dyfodol, a hefyd bod y cyfnod amser ar gyfer yr ystadegau yn cael ei gynnwys.

**Nodwyd.**

10. **Polisi Rheoli Risg**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod wedi cynnal dau adolygiad o Reoli Risg ac Aeddfedrwydd Risg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd nifer o argymhellion wedi'u gwneud, ac er mwyn bwrw ymlaen â'r argymhellion hynny roedd Polisi Rheoli Risg diwygiedig wedi'i lunio oedd yn cyflwyno elfennau newydd o Sicrwydd i amlygu’r arfer da drwy’r Model Tair Llinell, a hefyd yn cyflwyno ymagwedd at Archwaeth Risg. Gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i roi sylwadau a gwneud awgrymiadau ar y polisi drafft, fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol i'w gymeradwyo.

Awgrymodd yr Aelodau nifer o newidiadau i'r polisi, gan gynnwys ailenwi Amcanion y Polisi fel y'u hamlinellir yn y papur rhagarweiniol yn Ganlyniadau, a diwygiadau i adran Archwaeth Risg y polisi. Derbyniwyd y

byddai angen adolygu'r polisi hwn maes o law i sicrhau ei fod yn gweithio fel y rhagwelir. Holwyd hefyd a ddylid ystyried cyfethol aelodau allanol i'r Pwyllgor yn y dyfodol i roi persbectif annibynnol; ystyriwyd y byddai hyn yn bwnc diddorol i'w drafod.

**NODWYD.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.40am a 11.50am.]

**1 1. Cofrestr Risg**

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y gofrestr risg wedi'i hadolygu a'i diweddaru yn ôl y Polisi Rheoli Risg presennol. Unwaith y byddai'r polisi newydd wedi'i gymeradwyo, byddai gwaith yn cael ei wneud i drosglwyddo i Gofrestr Risg newydd sy'n cymryd tystiolaeth sicrwydd ehangach ac archwaeth risg i ystyriaeth.

Awgrymodd yr Aelodau y gellid ystyried ychwanegu risgiau sy'n deillio o'r ffaith nad yw polisïau wedi'u hadolygu o fewn y cyfnodau amser penodol, a hefyd ffrydiau gwaith ychwanegol i'r Awdurdod yn sgîl newidiadau yng Ngweinidogion Llywodraeth Cymru. Hefyd gofynnwyd am adolygu sgoriau risg 4 (cyflawni targedau) a risg 6 (colli cynefinoedd/ bioamrywiaeth).

**NODWYD.**

**12. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24**

Dywedwyd bod rhai Aelodau, yn ystod y trafodaethau diweddarach ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23, wedi mynegi'r farn y byddent yn dymuno gweld adolygiad mwy sylweddol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Oherwydd hyn, gwahoddwyd yr Aelodau i nodi pa newidiadau y dymunent eu gwneud i fformat a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Byddai'r newidiadau hyn yn cael eu hymgorffori mewn drafft o Ddatganiad 2023/24 fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod er mwyn galluogi pob Aelod i wneud sylwadau.

Y sylwadau cyffredinol a wnaed oedd cynnwys rhifau paragraffau a chysondeb yn y modd y disgrifir y Pwyllgorau, yn ogystal â chael gwared ar ddyblygu drwy ddefnyddio croesgyfeiriadau a dolenni cyswllt.

**NODWYD.**

**13. Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant am y Cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2023**

Dywedwyd bod yr adroddiad diwygiedig hwn yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 - 2026/27. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau

ymlaen yn erbyn dangosyddion blaenoriaeth, prosiectau, rhaglenni gwaith a gweithgareddau datblygu mewnol oedd yn gysylltiedig â’r gweithgareddau a glustnodir yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Rhagfyr ac yn cynnwys ystadegau Ch3 ar gyfer rhai mesurau.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r adroddiad newydd ac yn holi a oedd y cyllid yn mynd i barhau ar gyfer y prosiect Cerdded er Lles er mwyn sicrhau nad oedd y gwaith a'r ymgysylltu a wnaed yn dod i ben. Atebodd y swyddogion y byddai'r gwaith o gefnogi grwpiau cerdded yn parhau, fodd bynnag bydd ceisiadau yn cael eu gwneud am gyllid grant ar gyfer y maes hwn o waith gan fod y maes yn aml yn cyd-fynd â meini prawf grantiau. Hefyd gofynnwyd cwestiwn am y cynllun a'r strategaeth barhaus ar gyfer Oriel y Parc i annog mwy o ymwelwyr i'r oriel. Dywedodd y swyddogion bod yr arddangosfa bresennol Geiriau Coll wedi bod yn boblogaidd a hefyd bod trefnu rhaglen ehangach o waith ar y gweill. Yn unol â’r adroddiad a gyflwynwyd i’r Awdurdod fis Gorffennaf 2023, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i greu cynllun pwrpasol ar gyfer Oriel y Parc i ddatblygu’r ganolfan ymhellach.

**NODWYD.**

**14. Adroddiad ar Fonitro Sicrwydd – Cydymffurfiaeth, Dyletswyddau Cyhoeddus a Statudol a Gwelliant Corfforaethol**

Dywedodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth mai nod yr adroddiad hwn oedd adolygu perfformiad yr Awdurdod ar hyn o bryd o ran cydymffurfiaeth, dyletswyddau cyhoeddus a statudol, a meysydd gwelliant corfforaethol. Dyma fyddai un elfen o'r dull rheoli risg fyddai’n cynorthwyo swyddogion ac Aelodau i fonitro, asesu ac ymateb i feysydd gwaith cydymffurfiaeth a gwelliant corfforaethol. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu’r cynnydd yn erbyn y meysydd gwelliant corfforaethol a glustnodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chynlluniau Cyflawni yr Awdurdod.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am y gwaith o gasglu'r wybodaeth yn yr adroddiad oedd yn ddefnyddiol iddynt o ran eglurder ac amlygu cwmpas y gwaith a wneir gan yr Awdurdod. Nodwyd ganddynt bod nifer o bolisïau â sgôr melyn, ac awgrymwyd y byddai rhestr o ddogfennau gyda'u dyddiadau adolygu yn ddefnyddiol. Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn ag adroddiadau ar ddyletswyddau’r sector cyhoeddus a thlodi plant a’r Iaith Gymraeg, amlygodd y swyddog mai adroddiad sicrwydd oedd hwn ac felly’n cynnwys gwybodaeth yn unig am feysydd lle y cyrhaeddwyd lefelau goddefiant neu sbardunau oedd yn arwain at sgoriau cydnerthedd “agored i niwed” neu “achos pryder. Roedd un Aelod o'r farn y dylid cynnal asesiadau o’r effaith ar y Gymraeg ar wahân yn hytrach nag fel rhan o asesiadau integredig (Cyf G20). Cymerodd y swyddog y pryderon

hyn i ystyriaeth ond credai y byddai asesiad cydwybodol fel rhan o asesiad integredig yn fwy defnyddiol i'r swyddogion.

**Nodwyd.**

**15. Perfformiad y Gyllideb am y chwe mis yn diweddu Rhagfyr 2023**

Roedd adroddiad y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian yn nodi'r gyllideb refeniw net fanwl am y naw mis hyd at Ragfyr 2023 oedd yn dangos bod y gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig yn £4,154k, sef £408k (9.0%) yn well na'r gyllideb broffiliedig. Roedd y prif resymau dros yr amrywiad mewn gwariant gwirioneddol yn erbyn cyllideb pob adran gwasanaeth wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Nodwyd bod incwm tocynnau tymor meysydd parcio yn is na'r gyllideb, a hynny yn ôl pob tebyg oherwydd y cynnydd sylweddol yn y pris. Nodwyd materion oedd yn ymwneud â thalu dros y ffôn a phroblemau gyda signal. Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi bod yr Awdurdod yn wynebu cynnydd mewn costau gyda thrydan yn enghraifft allweddol o'r heriau a wynebwyd. Roedd cyfraddau trydan wedi cynyddu 180% yn ystod 2022-23 a thaliadau sefydlog wedi cynyddu 50%. Holodd yr Aelodau a oedd yr Awdurdod wedi cytuno i gontract, ac atebodd y swyddog bod yr Awdurdod yn rhan o gonsortiwm sy'n prynu ynni ymlaen. Roedd y prisiau cyfredol wedi gostwng ac felly dylai costau trydan ostwng. Ychwanegodd y Pennaeth Datgarboneiddio bod yr Awdurdod yn buddsoddi mewn Canopïau Ffotofoltäig yn Llanion fyddai'n dod â'r costau i lawr yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y trydydd chwarter y rhagolwg o'r sefyllfa refeniw ar ddiwedd blwyddyn 2023/24 oedd diffyg gweithredol o £112k, sef £263k yn well na'r diffyg a gyllidebwyd o £375k, ac eglurwyd y symudiad a ragwelwyd yn y sefyllfa yn yr adroddiad.

Roedd rhaglen gyfalaf y flwyddyn wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £995k i gyllideb ddiwygiedig o £1,469k. Roedd y rhagolwg i fyny oherwydd prynu tir yn Nhraeth Trefdraeth am £125,000 a ariannwyd gan Grant pwrpasol Llywodraeth Cymru, a £195k ar beiriannau torri newydd i'r wardeniaid, a ariannwyd gan grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Yn ogystal, roedd taliad pellach ar gyfer gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan oedd bellach wedi'u gosod yn llawn ac yn weithredol, yn ogystal ag ailosod yr oerydd fel mater o frys yn Oriel y Parc. Fodd bynnag, roedd gwaith ar ei hôl hi o ran cyflawni nifer o raglenni oherwydd capasiti a'r angen am adroddiadau proffesiynol; cyflwynwyd manylion pellach mewn adroddiadau eraill ar yr agenda y diwrnod hwnnw.

Gan droi at Gronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod, dywedwyd y disgwylir y byddai'r diffyg a ragwelwyd am y flwyddyn yn £112k ac felly roedd disgwyl i falans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ostwng i £1,029k ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn a'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw a chyfalaf yn ystod y flwyddyn, a disgwylir iddynt ddisgyn i £330k a £4000k yn y drefn honno ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Dywedodd y swyddog bod llawer o waith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer diwedd y flwyddyn, yn enwedig o ran cyfrifo grantiau wedi'u neilltuo. Achoswyd y brif her arall gan yr oedi cyn cwblhau'r adolygiad cyflogau a graddfeydd a'r angen i gronni ar gyfer taliadau oedd i'w hôl-ddyddio i 01/04/2023 pan nad oedd y ffigyrau terfynol ar gael. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai diweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Adnoddau Dynol cyn hir, ond y gobaith oedd dod â hyn i ben cyn gynted â phosibl. Dywedwyd hefyd bod Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd wedi'i chreu i dalu’r taliadau sydd i'w gwneud.

**NODWYD.**

**16. Diweddariad ar bontio systemau'r Awdurdod i Microsoft 365**

Eglurodd y Pennaeth Datgarboneiddio bod y newid i Microsoft 365 wedi arwain at gam sylweddol ymlaen yn ymdrechion yr Awdurdod i wella cynhyrchiant, cydweithio a hyblygrwydd. Dywedodd bod newidiadau i'r tîm technoleg gwybodaeth wedi digwydd yn ystod y flwyddyn oedd wedi arwain at broblemau capasiti a bod yr ailstrwythuro hefyd wedi effeithio ar y cynnydd. Serch hynny, roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran hyfforddiant a ddarparwyd ar y cyfleoedd a gynigir gan Microsoft 365, a bod mewnrwyd newydd wedi'i lansio oedd yn cynnwys mannau ar gyfer storio dogfennau allweddol yr Awdurdod megis polisïau a ffurflenni. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sicrhau bod y strwythur ffeiliau yn amlygu strwythur newydd y sefydliad, ac roedd Grŵp Rheoli Cofnodion wedi'i greu i reoli'r broses hon fesul cam.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn dysgu mwy am y gwaith o reoli dogfennau a fersiynau o ddogfennau, a’u gobaith oedd y gellid cyflwyno diweddariad pellach yn y dyfodol.

**NODWYD.**

**17. Eithrio’r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd James, **PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**18. Cynllun Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno Cynllun diweddaraf yr Awdurdod ar Adfer ar ôl Trychineb TGCh, oedd wedi'i ddiweddaru yn unol ag argymhelliad Archwilio Mewnol. Roedd hwn yn nodi'r broses o adfer systemau yn dilyn tarfu mawr sy'n effeithio ar y seilwaith TGCh neu wasanaethau TG eraill gyda'r amcanion o leihau amser segur a cholli data, gan sicrhau parhad yn y gweithrediadau a diogelu gwybodaeth sensitif.

Sicrhawyd yr Aelodau o wybod bod y darn allweddol hwn o ddogfennaeth yn ei le ac y byddai'r systemau yn cael eu profi a'u hadolygu.

**NODWYD.**

**19. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**